**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, y Stryd Fawr, Llandybïe a thrwy gyfrwng Microsoft Teams ar ddydd Iau, Tachwedd 14eg, 2024 am 7.20yh.**

**Presennol**

**Cynghorwyr:** R. A. Davies, J.W. Tandy, D. Hopkins, A. Evans, C. R. Thomas, P. H. Roberts

**Arlein:** D. Thomas,

**Ymddiheuriadau:** E. J. Davies, Mrs K. D. L. Davies, N. C. Davies, L. Wilkins.

**562.**

## Datganiadau o Fuddiant.

Parthed ag Eitem 1 ar yr Agenda, sy'n cyfeirio at wariant cyllideb ar Gyrtiau Tenis Llandybïe, roedd y Cynghorydd R. A. Davies wedi datgan ei fod yn aelod o Glwb Tenis Llandybïe.

## Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cyng E. J. Davies, y Cyng Mrs K. D. L. Davies, y Cyng N. C. Davies a'r Cyng L. Wilkins.

**563.**

## Cynllun 5 Mlynedd Rheoli Asedau.

**5 Year Asset Plan Projections**

| | 2025 - 26 | | | 2026 - 27 | | 2027-28 | | 2028-29 | | 2028 - 29 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Projects | Cost | Grants to be applied for | VAT Claims | Projects | Cost | Projects | Cost | Projects | Cost | Projects | Cost |
| **Community Project from Budget** | | | | | | | | | | | |
| Saron Park | 15000 | 5000 | 3000 | Blaenau Park | 15000 | Derwydd Park | 10000 | Llandybie Park | 10000 | Bonllwyn Park | 10000 |
| Llandybie Tennis Courts **(total project £61,000 inc vat) £51,000 net** | 32500 | 18,500 | 10500 | Cwmgwili Park Upgrade | 15000 | Penybanc | 10000 | Penygroes | 10000 | Derwydd Park | 10000 |
| CCTV at Saron Park | 5000 | 0 | 1000 | | | Capel Hendre Park | 10000 | Gors Ddu | 5000 | | |
| | **48500** | | | | **30000** | | **30000** | | **25000** | | |
| **Maintenance of Assets Budget** | | | | | | | | | | | |
| Heating System at Llandybie Pavilion | 21000 | 3500 | 1850 | Solar Panels Llandybie Pavilion | 5000 | Llandybie Pavilion | 5000 | To be decided | | To be decided | |
| Shed Roof at Llandybie Pavilion | 2000 | 0 | 0 | Upgrade Offices | 3000 | Upgrade of 16 notice boards | 10000 | To be decided | | To be decided | |
| General | 3000 | 3000 | 300 | Llandybie Toilets | 4000 | | | | | | |
| | | | | Penygroes Toilets | 4000 | | | | | | |
| | **26000** | | | | **16000** | | **15000** | | **16000** | | **16000** |
| **Parks and Repairs Budget** | | | | | | | | | | | |
| Rubber Overlay at Heol Ddu Park Penygroes | £2,920.00 | 0 | 0 | General park maintenance | 10000 | General park maintenance | 10000 | | | | |
| Gate at Children's Play Area Penygroes Park | £1,425.00 | 0 | 0 | | | | | | | | |
| Removal of Fence at Capel Hendre Park | £950.00 | 0 | 0 | | | | | | | | |
| | | 0 | 0 | | | | | | | | |
| | **£5,295.00** | | 16650 | | **10000** | | **10000** | | **10000** | | **10000** |
| | | | | **New projects** | **15000** | **New Projects** | **20000** | **New Projects** | **20000** | **New Projects** | **25000** |

Roedd y Clerc wedi cyfeiro mewn manylder, llinell wrth linell, at y Cynllun 5 Mlynedd Rheoli Asedau mewn ymgais i esbonio'r gwariant roedd wedi'i gynnwys, ac a fyddai'n effeithio ar yr eitem nesaf, sef y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025/26.

Trafodaeth ynghylch y Gyllideb, a'r gwariant ar brosiectau ased yr oedd angen eu trafod ymhellach wedi cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar Hydref 24ain a'r Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar Hydref 30ain, 2024:

- **Cyrtiau Tenis Llandybïe;** Eglurodd y Clerc ei fod wedi derbyn dyfynbrisiau wedi'u diweddaru, a bod y pris gorau yr un swm a gyflwynwyd yn Ionawr 2024, sef £50,659, gyda'r dyfynbrisiau eraill yn dod i £57,352 yn fwy a'r trydydd £50,750. Roedd y Cyng R. A. Davies wedi gofyn os roedd y Clerc wedi gofyn i'r Clwb Tenis am gyfraniad; roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod wedi gwneud ond bod y clwb o'r farn gan taw nid nhw oedd yn berchen ar yr ased y dylent ddefnyddio unrhyw arian sydd ganddynt i feithrin datblygiad tenis, a taw ni, fel landlordiaid y dylai fod yn gyfrifol am ddarparu wyneb chwarae addas.

  Gofynnodd y Cyng R. A. Davies os oedd modd i'r contractwr gynnig gwarant parthed â'r broblem mwsogl ac wyneb y cyrtiau, ac am ba mor hir oedd modd gwneud hynny. Roedd y Clerc wedi cadarnhau, fel y cofnodwyd yn yn cofnodion blaenorol nad oedd modd iddynt gwneud hyn gan nad oeddent yn gyfrifol am lefel defnydd y cyrtiau. O ran y mwsogl, roedd y Clerc hefyd wedi cadarnhau, fel y nodwyd yn y cofnodion blaenorol, ei fod wedi gofyn cyngor y contractwr, sy'n meddu ar brofiad o waredu ac atal mwsogl, a bod y contractwr wedi cynghori taw atal yw'r datrysiad gorau ac, unwaith bod yr wyneb wedi'i osod y ffordd orau ymlaen byddai ei drin yn gyson gyda chemegau, ystyried clirio'r coed sy'n bargodi uwchben a chlirio'r dail oddiar y cwrt yn gyson.

  Roedd y Cyng A. J. Evans a'r Cyng C. R. Thomas wedi gofyn bod y Clerc yn ystyried yn ofalus pa gemegau a fydd yn cael eu defnyddio, ac adrodd yn ôl ynghylch y math o gemegau a ddefnyddir a'u heffaith amgylcheddol posibl. Hefyd bod unrhyw waith clirio coed yn cael ei ystyried yn ofalus, ac ystyried torri'r coed yn ôl, yn hytrach nag eu cwympo, a gosod coed newydd yn eu lle pe byddai rhaid cwympo coed.

  Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod wedi trefnu cyfarfod swyddogion coed Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystod yr wythnos nesaf er mwyn trafod y coed ar ffiniau'r cyrtiau tenis.

  **Cytunwyd argymell** swm o £61,00 gan gynnwys TAW yn y gyllideb ddrafft i'w **ddilysu** yn y Cyfarfod Cyffredin nesaf, a bod y Clerc yn adrodd yn ôl mewn cyfarfodydd yn y dyfodol ynghylch unrhyw driniaethau atal mwsogl.

- **To'r Sied yn y Grin Bowlio, Llandybïe;** Eglurodd y Clerc ei fod wedi derbyn adroddiad gan y Cyngor Sir ynghylch cynnwys asbestos y to, ac nid oedd yn cynnwys asbestos. Gan fod penderfyniad eisoes wedi'i wneud i gwblhau gwaith i'r to fel rhan o gyllideb cynnal a chadw eleni, roedd wedi cadarnhau ei fod wedi gofyn i'r contractwr fwrw ymlaen gyda'r gwaith, am bris o tua £1,800.

Roedd y Cyng A. J. Evans wedi gofyn bod y gost a ddyranwyd, sef £2,000, yn cael ei gadw yng nghyllideb y flwyddyn nesaf, ac hynny o dan y pennawd cynnal a chadw cyffredinol.

- **Y System Wresogi ym Mhafiliwn Llandybïe;** Eglurodd y Clerc ei fod yn y broses o gaffael dyfynbrisiau am system wresogi werdd lawn, yn cynnwys Pwmp Gwres Ffynhonnell Aer, Paneli Solar a Batri i storio'r ynni sy'n cael ei gynhyrchu.

  Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod am wneud cais am grant ynni gwyrdd a allai ddod i gyfanswm o £7,500, ac yn gwneud cais pellach am grant o £10,000 o Gronfa Fferm Wynt y Betws.

  Roedd yr Is-Gadeirydd, y Cyng J. W. Tandy, wedi gofyn bod y £5,000 a ddyranwyd yng nghyllideb 2026/27 yn cael ei ddwyn ymlaen er mwyn cynyddu cyfanswm yr eitem cyllidol i £26,000.

- **Gât i Ardal Chwarae y Plant, Parc Penygroes;** Eglurodd y Clerc bod hwn wedi datblygu i fod yn fater o gydymffurfio a chytunwyd dechrau ar y gwaith ar unwaith, gan bod arian ar gael yn y gyllideb cynnal a chadw, ac i dynnu'r arian o gyllideb y flwyddyn nesaf.

- **Gwifren Zip ym Mharc Penygroes;**
  Roedd y Cyng D. Thomas wedi atgoffa'r Clerc am y cais am Wifren Zip ym Mharc Penygroes, ac roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod yn y broses o brisio'r prosiect, gyda'r bwriad o'i gynnwys yn nhrafodaethau cyllidol y flwyddyn nesaf ar gyfer cyllideb 2025/26.

- **Cyfraniad at Barc Rhodfa'r Afon, ger Dôl Y Dderwen;** Gofynnodd y Clerc am drafodaeth ynghylch Parc Rhodfa'r Afon a'r cyfraniad ato, sydd wedi ei dynnu o'r cynigion cyllidol, wedi i'r mater gael ei godi yn ystod y Cyfarfod Cyffredin.

  **Trafodaeth;** Trafodwyd y mater mewn manylder a, tra bod wedi'i gydnabod efallai y byddai gweithio ar y cyd yn fuddiol yn y dyfodol, gydag unarddeg parc i gynnal a chadw a'r ffaith bod yr awdurdod yn defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i sybsideiddio'r praesept, y dylai'r cyngor ddefnyddio ein cyllideb i ariannu ein hasedau ni. Roedd y Cadeirydd Gweithredol, y Cyng J. W. Tandy, wedi gofyn am bleidlais, a chariwyd y bleidlais, o bum pleidlais gydag un yn atal pleidlais, i beidio cynnig i Gyngor Tref Rhydaman unrhyw gyfraniad tuag at Barc Rhodfa'r Afon.

**Argymhellwyd** bod y Clerc yn diweddaru'r Cynllun Asedau 5 Mlynedd i adlewyrchu'r drafodaeth, ac ychwanegu, lle bod hynny'n briodol, y newidiadau at y Gyllideb Ddrafft 2025/26, ac yna'n ei gynnig i'w ddilysu gan y cyngor llawn yng Nghyfarfod Cyffredin mis Tachwedd.

**564.**

## Trafodaeth ynghylch y Praesept ar gyfer 2025/26.

| Community | PRECEPT<br>2024-25 | TAX BASE<br>2024-25 | COUNCIL TAX<br>BAND D<br>2024-25 |
|---|---|---|---|
| Llandybie | 180,000 | 4,506.16 | 39.95 |
| Llandybie + 7.7% | 193,860 | 4,506.16 | 43.02 |
| Increase | 13,860 | 0.00 | 3.07 |
| % Increase | 7.7% | 0.0% | 7.7% |

| 6<br>9 | 7<br>9 | 8<br>9 | 9<br>9 | 11<br>9 | 13<br>9 | 15<br>9 | 18<br>9 | 21<br>9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BAND A | BAND B | BAND C | BAND D | BAND E | BAND F | BAND G | BAND H | BAND I |
| 26.63 | 31.07 | 35.51 | 39.95 | 48.83 | 57.71 | 66.58 | 79.90 | 93.22 |
| 28.68 | 33.46 | 38.24 | 43.02 | 52.58 | 62.14 | 71.70 | 86.04 | 100.38 |
| 2.05 | 2.39 | 2.73 | 3.07 | 3.75 | 4.43 | 5.12 | 6.14 | 7.16 |
| 7.7% | 7.7% | 7.7% | 7.7% | 7.7% | 7.7% | 7.7% | 7.7% | 7.7% |

Eglurodd y Clerc ei fod wedi derbyn ffigyrau cywir oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn seiliedig ar gyfrifiadau cywir cyfredol ar gyfer 2024/25, yn dangos yr effaith y byddai'r cynnydd o 7.7%, a argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyllid ar Hydref 24ain, yn cael ar bob band tŷ. Aeth y Clerc ymlaen i egluro y byddai'r cyfrifiadau swyddogol ar gyfer 2025/26 yn cael eu cadarnhau gan Fwrdd Cyngor Sir Caerfyddin ar ôl Rhagfyr 12fed. Roedd staff cyllid y Cyngor Sir wedi dweud nad oedd y cyfrifiad hwn yn aml yn newid yn sylweddol.

Gofynnodd y Clerc bod y cynnydd canrannol yn cael ei osod i'w gadarnhau, mewn egwyddor, yng nghyfarfod mis Tachwedd, ac y byddai'n diweddaru cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ym mis Chwefror ynghylch unrhyw newidiadau mawr.

Gan nad oedd y praesept wedi cael ei godi am ddeg mlynedd, roedd y Cyng R. A. Davies o'r farn y dylid codi'r praesept o £5.00 ar draws yr holl fandiau, yn hytrach na chyflwyno codiad o 7.7%. Roedd y Cyng D. Thomas yn teimlo y byddai hyn yn well fel canran, ac roedd y Cadeirydd, y Cyng J. Tandy, wedi cyfrifo y byddai hynny'n dod i 12%; unwaith eto, yn ystod y drafodaeth awgrymodd y Cyn D. Thomas 9.5%, ond roedd y Cyng A. J. Evans o'r farn bod 7.7% yn gyfradd dderbyniol, wedi'i chysylltu â chodiad y Cyngor Sir, ar yr amod bod polisi yn cael ei osod i godi'r prasept gyda chanran llai yn flynyddol, er mwyn cadw at ofynion chwyddiant.

Roedd y Cyng R. A. Davies dal o'r farn bod hi'n well cytuno ar godiad ariannol, yn hytrach na chodiad fesul canran, ond roedd y Cyng D. Thomas wedi cynnig bod y cynnydd o 7.7%, ynghyd â chynnydd blynyddol, yn cael ei dderbyn, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng C. R. Thomas.

Cynhaliwyd pleidlais a chariwyd y cynnig, gyda phum pleidlais o blaid a dau yn erbyn.

**Cytunwyd** bod codiad yn y praesept o 7.7% yn cael **argymhell** i'w **ddilysu** yn y Cyfarfod Cyffredin nesaf. Cytunodd y Clerc i ddiweddaru'r Pwyllgor Cyllid yn ei gyfarfod ym mis Chwefror os y byddai unrhyw newid yn y ffigyrau terfynol o ganlyniad i benderfyniadau terfynol y bwrdd wrth iddynt gyfrifo'r fformiwla terfynol yng Nghyngor Sir Caerfyrddin ar Ragfyr 12fed.

## 565.

## Trafodaeth ynghylch y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025/26.

**Cyngor Cymuned Llandybïe - Cynnig y gyllideb 2025-26**
**Llandybie Community Council - Budget Proposal 2025-26**
**DRAFT PROPOSAL**
**EXPENDITURE & INCOME**

| | 2024-25 | Proposal 2025-26 | |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | |
| Presept | 180,000 | 193,860 | Precept |
| Llog : Lloyds | 800 | 800 | Interest: Lloyds |
| Llog : cyfrifon buddsoddi | 250 | 3,500 | Interest: investment accounts |
| VAT | 12,000 | 24,000 | VAT |
| Section 106 | 21,750 | 0 | Saron TBD |
| Grants (Betws Wind Farm Fund) | 0 | 15,000 | |
| Hawliau tramwy | 3,000 | 3,000 | Rights of way |
| Cytundebau llogi | 4,700 | 5,000 | Hire Agreements |
| | 222,500 | 245,160 | |
| Staff | 61,864 | 57,252 | Staffing |
| Adeiladau | 22,000 | 26,000 | Premises |
| Insurance | 2,500 | 3,600 | Insurance |
| Gwasanaethau swyddfa | 6,000 | 7,500 | Office Services |
| Costau Aelodau | 15,875 | 15,000 | Member costs |
| Gwasanaetyhau a Tanysgrifiadau | 6,050 | 6,050 | Services and Subscriptions |
| Adran 137 | } | 0 | Section 137 |
| Taliadau dan bwerau eraill | } | 0 | Payments under other powers |
| Mannau agored cyhoeddus | } | 0 | Public open spaces |
| Neuaddau pentref | } | 0 | Village halls |
| Mynwentydd | 20,000 | 20,000 | Burial grounds |
| Hawliau tramwy - cynnal | } | 0 | Rights of way - maintenance |
| Hawliau tramwy - gwella | 10,000 | 5,000 | Rights of way - improvement |
| Toori gwair/sbwriel / cyfleustarau | 30,000 | 31,500 | Grass cutting/ litter/ facilities |
| Atgyweirio a ailosod parciau | 20,000 | 5,295 | Park repairs and replacement |
| Goleuadau cyhoeddus - ynni | } | 0 | Public lighting - energy |
| Goleuadau cyhoeddus - gwella | 6,000 | 4,000 | Public lighting - improvement |
| Datblygiad cymunedol | 42,000 | 48,500 | Community development |
| Costau Etholiadau | 0 | 8,000 | Election |
| Toiledau cyhoeddus | 14,000 | 11,200 | Public conveniences |
| Vat | 12,000 | 24,000 | VAT |
| | 268,289 | 272,897 | |

Llofnodwyd / Signed Cadeirydd / Chair Clerc / Clerk

| **Predicted Budget at March 31st 2025 THIS FINANCIAL YEAR** | **Actuall Budget** | **Predicted at 31st March 2025** |
|---|---|---|
| Expenditure | 268,289 | 254,816 |
| Income | 222,500 | 252,160 |
| | | |
| **Budget 2025 - 26** | | |
| Expenditure | **274,602** | |
| Income | 231,300 | |
| | | |
| **Deficit for 2025/26; funding from reserves** | **2025 - 26** | **Note** |
| Money to be allocated from reserves | 27,737 | (30789 Allocated 2024-25) |
| | | |
| **Additional Budget 2025/26 explanation notes** | | **Notes** |
| | | |
| **Staffing;** | | |
| Clerk going from point 30 to point 33 in April 2024 | 3,275 | As per Job Evaluation |
| Admin Assitant going from point 5 national pay award to point 13 | 1496 | As per Job Evaluation |
| (Allowance for expected 2.5% national pay award included) | | |
| Pension | 2,185 | NEST Pension 4% Contribuion (less than budgetted of 8%) |
| **Grass cutting;** | | |
| 5% Annual increase in Council Services | 1,500 | |
| | | |
| **Community Budget** | | |
| Increase on last year £6500 due to extra cost of Tennis Courts | 6500 | |
| | | |
| **1. Reserves 2025/26 Earmarked** | | **Notes** |
| Parks and Play Areas x 11 parks | 150,000 | (£150,000 2024-25) |
| | | |
| **2. Reserve funding of deficite on budget to keep precept at 180k** | 27,737 | (£30,7890 2024-25) |
| | | |
| **3. General Reserves** | 79,276 | (£70,211 2024-25) |
| This equates to 4.4 months of precept or 2.8 months of gross budgeted of gross expenditure. | | |

**4. Growth in Electorate and Households.**

As at Oct 21st 2024 there were 9,403 Electors (9238 as of March 2023)

As at Oct 21st 2024 there were 5,380 Households
Typical Band D being review but with 7.7% increase £43.02

**5. Predictive balance in the bank at 31st March 2025** **257,013**
**NB** £277,013 Less £20,000 agreed from Reserves for Caerbryn Community in January 2025

Roedd y Clerc wedi cyfeirio at bob pennawd, yr incwm a'r gwariant, gan egluro ei rhesymau dros osod y ffigyrau a'r pwyntiau trafod a oedd wedi arwain at y gwelliannau, ag eithrio'r newidiadau y cytunwyd arnynt ynghylch gwario ased yn yr eitem blaenorol yn y Cynllun Asedau 5 Mlynedd.

**Cytunwyd** bod y Clerc yn cynnwys y gwelliannau i'r cynnig cyllidol a awgrymwyd yn eitem 563 o'r Cynllun Assedau 5 Mlynedd, a chyflwyno'r gyllideb ddiwygiedig am 2025/26 i'w **ddilysu** yn y Cyfarfod Cyffredin nesaf.

**566.**

**Trafodaeth yngylch y Cyflenwad Trydan**

Eglurodd y Clerc bod y cytundebau ynghylch y mesuryddion yn dod i derfyn ar amrywiol ddyddiadau rhwng Rhagfyr 1af a diwedd mis Mawrth 2025, a bod, ar hyn o bryd, gennym ddau gwmni cyflenwi, EDF Energy a SSE. Cynghorodd y Clerc y byddai'n well pe byddai'r awdurdod yn delio ag un cyflenwr ar draws y safleoedd; byddai hyn yn ei gwneud hi'n haws monitro'r biliau a bod nawr yn amser da i drafod gwneud arbedion.

Aeth y Clerc ymlaen i esbonio ei fod wedi cysylltu, heb gost i'r awdurdod, ag asiant ynni a oedd wedi archwilio'r farchnad a chaffael arbedion o tua £1,200 y flwyddyn, a bod hi'n bosibl trawsnewid y mesuryddion i un cyflenwr rhwng y dyddiadau y crybwyllyd.

Archwiliwyd pum chwmni arall o ran eu prisiau, a chwmni Yorkshire Gas and Power oedd wedi cynnig y strwythur prisio gorau; gofynnodd y Clerc am drafodaeth rhwng yr aelodau er mwyn ystyried ei gyngor o ran symud y trefniadau cyflenwi trydan.

**Cytunwyd** bod y Clerc yn paratoi cytundebau, ac **argymell** i'r Cyfarfod Cyffredin nesaf bod y trefniadau newydd yn cael eu gosod yn eu lle o Ragfyr 1af, 2024.

**567.**

**Cloc y Chwarel yn Hen Neuadd y Pensiynwyr**

Roedd y Clerc wedi dweud tra bod y perchnogion newydd heb godi tâl am y cyflenwad trydan i'r cloc, roeddent nawr wedi'i hysbysu y byddant am i'r cyngor dalu cost y tâl sefydlog am gyflenwi trydan i'r adeilad. Roedd ganddo gopi o'r bil misol mwyaf diweddar, a oedd yn nodi tâl o £72 y mis.

Roedd y Clerc o'r farn bod y swm yma, ynghyd â'r gost cyson o atgyweirio'r cloc, sef £250 yr alwad, yn gyfanswm mawr i ddod o hyd iddo, ac awgrymodd y byddai angen datrysiad mwy parhaol, a chost effeithiol, i'r broblem gyfredol, sef bod y cloc yn arafu ac yn stopio'n gyson.

Roedd y Cyng R. A. Davies yn teimlo bod y cloc yn un o nodweddion y pentref, ac yn rhan o dreftadaeth yr ardal, a bod rhaid ei gynnal a chadw. Roedd y Clerc yn cytuno, a gofynnodd y Cyng A. J. Evans os oedd modd ystyried cyflenwad solar. Ychwanegodd y Cadeirydd, y Cyng D. Hopkins, ei fod mewn ardal gysgodlyd, ac efallai na fyddai hyn yn ateb ymarferol.

**Cytunwyd** bod y Clerc yn archwilio ffynhonellau trydan amgen, neu'n awgrymu datrysiad ac yn cwrdd unwaith eto gyda'r perchennog i drafod yr opsiynau ac, wedi iddo orffen ei ymchwiliadau, ei fod yn **adrodd yn ôl** yn y Cyfarfod Cyffredin nesaf.

**568.**

Gan nad oedd unrthyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 8.15 yh.

________________________ Cadeirydd